



Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19

Crynodeb o'r adroddiad llawn

Awdur: Yr Athro Debbie Foster



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei chomisiynu gan Fforwm Cydraddoldeb Anabledd Llywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Adroddiad ar effaith Covid-19 ar bobl anabl yng Nghymru – Crynodeb Gweithredol'.

Ebrill 2021

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Mae hwn yn fersiwn hawdd ei ddeall Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd eu darllen a'u deall.



Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.



Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn **ysgrifen glas normal**. Mae beth mae nhw'n feddwl yn y geiriau anodd ar **dudalen 26**.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Fforwm Cydraddoldeb Anabledd Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

Gwefan: llyw.cymru/fforwm-cydraddoldeb-i-bobl-anabl


E-bost: CangenCydraddoldeb@llyw.cymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. Os ydych chi eisiau dweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y ddogfen hawdd ei deall yma, [cliciwch yma](#).

Cyflwyniad.....	4
Beth rydyn ni wedi ei wneud.....	5
Beth roedden ni'n methu ei gynnwys.....	7
Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod a beth rydyn ni'n ei awgrymu....	8
Y model cymdeithasol o anabledd.....	8
Cynnwys pobl anabl mewn penderfyniadau mawr.....	9
Marwolaethau pobl anabl o Covid-19.....	11
Mynediad i wasanaethau cyhoeddus.....	13
Rhagor am fynediad i wasanaethau cyhoeddus.....	14
Deddfau hawliau dynol yng Nghymru.....	15
Mynediad i gyfiawnder yn ystod y pandemig.....	16
Addysg yn ystod y pandemig.....	17
Anghenion Teithio.....	18
Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru.....	19
Iechyd meddwl a llesiant.....	20
Tlodi yn y pandemig.....	21
Tai i bobl anabl.....	22
Gwaith a Chyflogaeth.....	23
Gwneud bywyd yn fwy teg ar ôl y pandemig.....	24
Gofod cyhoeddus a bywyd cyhoeddus.....	25
Geiriau Anodd.....	26

Cyflwyniad



Mae'r adroddiad yma am effaith y **pandemig** ar bobl anabl.

Mae **pandemig** yn meddwl cornafeirws yn lledaenu.



Rydyn ni wedi casglu llawer o wahanol wybodaeth ar gyfer yr adroddiad yma. Er enghraifft, gan y llywodraeth, o ymchwil a siarad gyda phobl.



Fe wnaethon ni ofyn i grŵp o bobl anabl ein helpu ni gyda'r adroddiad yma.



Roedd y bobl anabl yn dod o **Gyrff Pobl Anabl** ac elusennau anabled. Rydyn ni wedi eu galw nhw yn **Grŵp Llywio**.

Grŵp o bobl ydy **grŵp llywio** sydd yn gwybod am beth maen nhw'n siarad. Er enghraifft, pobl anabl yn siarad am anabled.



Fe wnaeth yr **Athro Debbie Foster** roi popeth rydyn ni wedi ei ddarganfod yn yr adroddiad yma.

Beth rydyn ni wedi ei wneud



Fe wnaeth y **grŵp llywio** gyfarfod yn rheolaidd rhwng Hydref 2020 a Chwefror 2021



Fe wnaeth **Rhian Davies** helpu gyda'r cyfarfodydd. Hi ydy **Prif Swyddog Gweithredol Anabledd Cymru**.

Fe wnaethon ni roi'r wybodaeth rydyn ni wedi ei gasglu mewn pump adran a dyma nhw:



- **Model cymdeithasol o anabledd**



- **Hawliau dynol**




- **Iechyd a llesiant**



- **Problemau cymdeithasol ac arian**



- **Eithrio, hygyrchedd a dinasyddiaeth**



Mae'r adroddiad yma yn grynodedb o'r prif adroddiad. Rydyn ni'n meddwl y dylech chi ddarllen y prif adroddiad hefyd.

Beth roedden ni'n methu ei gynnwys



Fe wnaethon ni ganolbwynto ar **anabledd** yn yr adroddiad yma.



Dydyn ni ddim wedi cynnwys pethau am:

- Pobl hŷn
- Plant
- Addysg



Fe fyddai hyn wedi gwneud yr adroddiad yn rhy hir ac yn ddryslyd.



Mae pobl eraill yn helpu'r grwpiau dydyn ni ddim wedi eu cynnwys.



Ac rydyn ni'n gwybod bod llawer mwy o waith i'w wneud.

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod a beth rydyn ni'n ei awgrymu

Y model cymdeithasol o anabledd



Mae'n bwysig iawn deall y **model cymdeithasol o anabledd**.

Mae'r **model cymdeithasol o anabledd** yn dweud bod y ffordd mae cymdeithas yn gweithio yn gallu stopio pobl rhag gwneud pethau mae pobl sydd ddim yn anabl yn eu gwneud.



Dyna pam roedden ni eisiau i'r **grŵp llywio** gael eu cynnwys yn yr adroddiad yma. Fe wnaeth y **grŵp llywio** ein helpu ni i ddeall y rhwystrau mae pobl anabl wedi eu wynebu yn ystod Covid-19.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydyn ni eisiau i Lywodraeth Cymru ddwed yn glir pa mor bwysg ydy'r **model cymdeithasol o anabledd**.



Rydyn ni eisiau i hanes pobl anabl gael ei ddysgu mewn ysgolion.

Cynnwys pobl anabl mewn penderfyniadau mawr

Yn ystod y **pandemig**, fe wnaethon ni ddarganfod nad oedd pobl anabl:



- Yn cael yr holl help meddygol roedden nhw ei angen.



- Yn cael llai o fynediad i **wasanaethau cyhoeddus** a chymorth cymdeithasol.

Mae **gwasanaethau cyhoeddus** yn wasanaethau y mae'r Llywodraeth yn talu amdanyn nhw. Er enghraifft: cynghorau lleol, GIG, yr heddlu a thŷn ac achub.



- Yn cael llai o fynediad i ofod cyhoeddus a bywyd cyhoeddus.



- Yn cael trafferth i fyw'n annibynnol.



- Doedd eu hawliau dynol ddim bob amser yn cael eu parchu yn llawn.



Fe ddylai pobl anabl gael llais mewn penderfyniadau mawr sydd yn effeithio ar eu bywydau.



Mae cael llais mewn penderfyniadau mawr yn gallu stopio hyn rhag digwydd eto.



Mae arian ar gael i helpu pobl anabl i fynd i mewn i wleidyddiaeth. A chael llais mewn penderfyniadau mawr.



Mae hyn yn dda ond mae rhagor i'w wneud eto. Fel gadael i bobl anabl wybod y byddwn ni'n gwneud **addasiadau rhesymol**.

Addasiadau rhesymol ydy newidiadau mae lleoedd a gwasanaethau yn gallu eu gwneud i wneud yn siŵr bod pawb yn gallu eu defnyddio nhw. Er enghraifft, rhoi rampiau mewn adeiladau i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Neu rhoi gwybodaeth hawdd ei ddeall i bobl.

Marwolaethau pobl anabl o Covid-19



Roedd mwy na hanner y bobl wnaeth farw o Covid-19 yng Nghymru yn anabl.



Roedd **ffactorau cymdeithasol** yn rheswm mawr dros hyn.

Dyma rhai o'r **ffactorau cymdeithasol**:



- Tai gwael



- Os oes gennych chi swydd



- Lle rydych chi'n byw



- Iechyd gwael a gwasanaethau gofal cymdeithasol gwael



- Gwybodaeth dryslyd



- Dim **PPE**

PPE ydy **cyfarpar diogelu personol** rydych chi'n ei wisgo i ddiogelu eich hun rhag Covid-19. Fel gwisgo mwgwd.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydyn ni eisiau i **Lywodraeth Cymru** feddwl am **ffactorau cymdeithasol** a sut maen nhw wedi cael effaith.



Rydyn ni eisiau i **Lywodraeth y DU** wneud yr un fath i'r bedair cenedl.

Mynediad i wasanaethau cyhoeddus



Roedd hi yn fwy anodd i bobl anabl gael mynediad i **wasanaethau cyhoeddus** yn y **pandemig**.



Roedd hyn yn gwneud iddyn nhw deimlo'n ddryslyd, yn ofnus ac yn unig. Ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n llai yn y gymdeithas yng Nghymru.



Roedd llawer o'r problemau yma yn cael eu hachosi oherwydd bod staff yn ddifeddwl.



Rydyn ni eisiau i'r staff sydd yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau cyhoeddus i gael hyfforddiant fel bod hyn ddim yn digwydd eto.



Fe ddylai pobl anabl a **Cyrff Pobl Anabl** gael llais yn yr hyfforddiant yma.



Fe fyddwn ni'n galw **Cyrff Pobl Anabl yn CPA** yn fyr.

Rhagor am fynediad i wasanaethau cyhoeddus



Fe ddylai **Llywodraeth Cymru** feddwl am anghenion gwasanaeth cyhoeddus pobl anabl.



Rydyn ni eisiau i **Lywodraeth Cymru** roi rhagor o arian i wasanaethau **eiriolaeth** hefyd.



Eiriolaeth ydy pan mae rhywun yn eich helpu chi ac yn siarad i fyny ar eich rhan.



Rydyn ni eisiau i **lywodraeth** ar bob lefel ddilyn y rheolau o **Gonfensiwn y CU ar Hawliau Pobl Anabl**.



Mae gan **Gonfensiwn y DU ar Hawliau Pobl Anabl** reolau sydd yn amddiffyn pobl anabl.

Deddfau hawliau dynol yng Nghymru



Mae newidiadau i ddeddfau yn ystod y **pandemig** wedi effeithio ar hawliau dynol pobl anabl.



Doedd rhywfaint o'r ddeddf o'r enw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014** ddim yn cael ei ddilyn dim mwy.



Roedd hyn yn meddwl bod gan bobl anabl lai o lais mewn penderfyniadau am eu bywydau.



Roedd rhan o'r ddeddf o'r enw **Deddf Coronafeirws** yn stopio rhai gwasanaethau i bobl anabl.



Rydyn ni'n hapus bod **Llywodraeth Cymru** yn newid rhai rhannau o'r Ddeddf Coronafeirws oedd wedi gwneud hyn.



Ond mae llawer eto i'w wneud i amddiffyn hawliau dynol pobl anabl.

Mynediad i gyfiawnder yn ystod y pandemig



Mae mynediad i gyfiawnder yn meddwl mynd i'r llys neu weld eich cyfreithiwr i ddatrys problemau cyfreithiol.



Dydy pobl ddim yn gallu gwneud hyn wyneb yn wyneb oherwydd y **pandemig**.



Mae popeth yn cael ei wneud drwy fideo, ar-lein neu ar y ffôn.



Mae hyn yn ei gwneud yn fwy anodd i bobl anabl gael mynediad i gyfiawnder. Yn enwedig **ffoaduriaid** anabl.



Ffoadur ydy rhywun sydd wedi gorfod gadael eu gwlad. Efallai oherwydd rhyfel neu mae eu bywyd wedi cael ei fygwth.



Rydyn ni eisiau i bobl anabl gael mwy o gymorth i gael mynediad i gyfiawnder.

Addysg yn ystod y pandemig



Dydyn ni ddim wedi sôn am addysg yn yr adroddiad yma.



Fe fydd pobl eraill yn gwneud hyn. Pobl fel **Comisiynydd Plant Cymru**.



Ond mae gennym ni rai syniadau.



Rydyn ni'n meddwl bod angen rhagor o offer, deunyddiau hyfforddi a gofal cymdeithasol i helpu plant gydag anghenion addysgol arbennig.



Rydyn ni eisiau i **Lywodraeth Cymru** wneud rhagor i helpu addysg plant anabl.

Anghenion Teithio



Mae'r **pandemig** wedi ei gwneud yn fwy anodd i bobl anabl deithio yn ddiogel ac yn hawdd.



Mae newidiadau i lwybrau a rheolau yn anodd ac yn ddryslyd i rai pobl anabl.



Mae rhai pobl anabl yn defnyddio tacsis nawr yn lle hynny. Mae tacsis yn ddrud.



Rhaid i **Lywodraeth Cymru** gefnogi pobl anabl gyda'u hanghenion teithio.



Mae hyn yn fater brys.

Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru



Mae'r **pandemig** wedi ei gwneud yn fwy anodd i bobl anabl gael mynediad i wasanaethau iechyd.



Mae iechyd rhai pobl anabl wedi mynd yn waeth yn ystod y **pandemig**.



Mae rhai pobl anabl wedi marw oherwydd hyn.



Rydyn ni eisiau i'r bylchau mewn gwasanaethau iechyd gael eu nodi yn gyflym a chael eu trwsio.



Rhaid i **Lywodraeth Cymru** a chyrff eraill gefnogi pobl anabl gyda'u anghenion gofal iechyd.

Iechyd meddwl a llesiant



Mae'r **pandemig** wedi bod yn ddrwg i iechyd meddwl a llesiant pobl anabl.



Mae'r llywodraeth wedi gwneud newidiadau i'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn ystod y **pandemig**.



Doedd y newidiadau yma ddim yn dda i bobl anabl.



Rydyn ni'n siarad gyda **Llywodraeth Cymru** am sut i wneud hyn.



Rhaid i **Lywodraeth Cymru** gefnogi pobl anabl gyda'u iechyd meddwl a llesiant.



Fe ddylai rhagor o bobl gael eu hannog i weithio mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

Tlodi yn y pandemig



Mae'r **pandemig** wedi gwneud **tlodi** hyd yn oed yn waeth i bobl anabl.



Mae **tlodi** yn meddwl peidio cael digon o arian i dalu eich biliau, i fwydo eich hun a'ch teulu, i gynhesu eich cartref, i brynu'r pethau rydych chi eu hangen i fynd o gwmpas.



Rydyn ni'n hapus bod deddf o'r enw **Dyletswydd Cymdeithasol Economaidd y Ddeddf Cydraddoldeb yng Nghymru 2021** wedi cael ei chreu.



Fe fydd hyn yn gwneud bywyd yn well ac yn fwy teg i bobl anabl.



Ond mae llawer eto i'w wneud i gefnogi pobl anabl sydd mewn **tlodi**.



Er enghraifft, mae angen i Lywodraeth y DU ddatrys y problemau gyda budd-daliadau lles pobl anabl.

Tai i bobl anabl



Does dim digon o dai addas i bobl anabl yng Nghymru. Rydyn ni'n poeni y bydd y **pandemig** yn gwneud hyn hyd yn oed yn waeth.



Mae angen i **Lywodraeth Cymru** weithredu'n gyflym i wneud yn siŵr bod digon o dai i'w rhentu neu i'w prynu.



Fe ddylai DPOs fod yn cymryd rhan pan mae penderfyniadau'n cael eu gwneud am dai.



Mae angen rhagor o arian fel bod pobl anabl yn gallu addasu eu tai.

Gwaith a Chyflogaeth



Mae llawer o bobl anabl wedi colli eu swyddi oherwydd y **pandemig**.



Mae angen y gefnogaeth mae **Llywodraeth Cymru** yn ei roi i helpu pobl anabl i ddarganfod gwaith newydd neu hyfforddi ar gyfer swydd wahanol yn fwy nag erioed ar y funud.



Mae gan rhai pobl anabl swydd nawr ond maen nhw'n gweithio o gartref.



Fe ddylai cyflogwyr amddiffyn pobl anabl lle bynnag maen nhw'n gweithio.



Rhaid i **Lywodraeth Cymru** wneud yn siŵr bod cyflogwyr yn cadw at y gyfraith.



Rhaid i **Lywodraeth Cymru** gefnogi pobl anabl os ydy eu cyflogwyr yn eu trin yn annheg neu yn torri'r gyfraith.

Gwneud bywyd yn fwy teg ar ôl y pandemig



Fe wnaethon ni weld bod **CPA** a gwirfoddolwyr yn gwneud llawer o waith da yn ystod y **pandemig**.



Roedden nhw'n helpu pobl anabl oedd wedi dioddef oherwydd toriadau i wasanaethau ac arian.



Ond dydy pobl anabl ddim i fod i ddibynnu ar elusen.



Mae angen i **Lywodraeth Cymru** gefnogi **CPAs** er mwyn iddyn nhw allu helpu pobl anabl.



Mae angen i **Lywodraeth Cymru** fod yn fwy hyblyg yn y ffordd mae'n rhannu arian.



Yna rydyn ni'n gallu adeiladu Cymru mwy teg ar ôl y **pandemig**.

Gofod cyhoeddus a bywyd cyhoeddus



Mae'r **pandemig** wedi meddwl bod y llywodraeth wedi gorfod gwneud rheolau am ofod cyhoeddus a bywyd cyhoeddus.



Ond doedd anghenion pobl anabl ddim bob amser yn cael eu hystyried ddigon.



Er enghraifft, doedd darlledwyr ddim bob amser yn dangos y dehonglydd **BSL** ddigon mewn cyhoeddiadau teledu.



Mae pobl anabl angen cael yr un mynediad i ofod cyhoeddus a bywyd cyhoeddus fel pawb arall.



Fe ddylai'r llywodraeth siarad gyda **CPA** i ddarganfod y ffyrdd gorau o wella mynediad.

Geiriau Anodd

Eiriolaeth

Eiriolaeth ydy pan maen rhywun yn eich helpu ac yn siarad i fyny ar eich rhan

Ffoadur

Ffoadur ydy rhywun sydd wedi cael eu gorfodi i adael eu gwlad. Efallai oherwydd rhyfel neu bod rhywun yn bygwth eu bywyd.

Ffurflen Adborth

Os ydych chi eisiau dweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y ddogfen hawdd ei deall yma, cliciwch yma.

Grŵp llywio

Grŵp o bobl sydd yn gwybod am beth maen nhw'n siarad. Fel pobl anabl yn siarad am anabledd.

Gwasanaethau Cyhoeddus

Gwasanaethau y mae'r Llywodraeth yn talu amdanyn nhw. Er enghraifft: cynghorau lleol, GIG, yr heddlu a thân ac achub.

Model cymdeithasol o anabledd

Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn dweud bod y ffordd mae cymdeithas yn gweithio yn gallu stopio pobl anabl rhag gwneud y pethau mae pobl sydd ddim yn anabl yn eu gwneud.

Pandemig

Mae hyn yn meddwl lledaniad coronafeirws.

PPE

Mae hyn yn meddwl cyfarpar diogelu personol i ddiogelu eich hun rhag Covid-19. Fel gwisgo mwgwd.

Tlodi

Mae hyn yn meddwl peidio cael digon o arian i dalu eich biliau, bwydo eich hun a'ch teulu, cynhesu eich cartref, prynu'r pethau rydych chi eu hangen i fynd o gwmpas.